**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd
Gorffenaf 2011

Mynegwyd pryder cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch y berthynas rhwng manwerthwyr bwyd mawr a chynhyrchwyr cynradd. Yn benodol, mae pryder bod ffermwyr mewn rhai sectorau amaethyddol ar eu colled wrth gynhyrchu nwyddau, tra bo manwerthwyr bwyd mawr wedi cynyddu eu helw ar yr un nwyddau.

Mae'r papur hwn yn archwilio sefyllfa bresennol y farchnad mewn tri sector amaethyddol gwahanol a'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn y Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflewni Bwydydd 2011 i benodi dyfarnwr annibynnol i oruchwylio'r Cod Bwydydd sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng y manwerthwyr bwyd mawr a'u cyflenwyr.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/0921

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd

Gorffenaf 2011

Nia Seaton

Rhif dogfen: 11/043

Gwasanaeth
Ymchwil

# Crynodeb

Mynegwyd pryder dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch y berthynas rhwng y manwerthwyr bwyd mawr a chynhyrchwyr cynradd. Yn benodol, mae pryder bod ffermwyr, mewn rhai sectorau amaethyddol, ar eu colled wrth gynhyrchu nwyddau, tra bo manwerthwyr bwyd mawr wedi cynyddu eu helw ar yr un nwyddau. Tri sector a fu o dan bwysau sylweddol yw'r sector llaeth, y sector dofednod a'r sector cig moch. Dengys gwybodaeth am y farchnad yn y tri sector hyn bod elw crynswth llawer o gynhyrchwyr wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, er bod elw'r manwerthwyr wedi cynyddu.

Bu'r Comisiwn Cystadleuaeth yn craffu ar y berthynas rhwng y manwerthwyr mawr a'u cyflenwyr yn 2006 ar ôl iddo gael cwynion am anghydbwysedd grym o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd. Cynhaliodd y Comisiwn yr ymchwiliad dros gyfnod o ddwy flynedd ac, yn 2008, daeth i'r casgliad y gallai trosglwyddo risgiau gormodol a chostau annisgwyl gan fanwerthwyr bwyd i'w cyflenwyr drwy wahanol arferion, os na chânt eu gwirio, gael effaith niweidiol ar fuddsoddi ac arloesi yn y gadwyn cyflenwi bwyd gyda defnyddwyr ar eu colled.

Felly, roedd yn argymell y dylid ei gwneud yn ofynnol i archfarchnadoedd lynu wrth God Ymarfer y Gadwyn Cyflenwi Bwyd, ac y dylid penodi dyfarnwr annibynnol i fonitro ymlyniad yr archfarchnadoedd â'r cod hwn. Yn ei hanfod, roedd yn dadlau dros benodi ombwdsmon archfarchnadoedd.

Felly, galwodd y Comisiwn Cystadleuaeth ar Lywodraeth y DU i benodi dyfarnwr. Ar 24 Mai 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Drafft sy'n cynnwys cynigion ar gyfer penodi dyfarnwr archfarchnadoedd annibynnol i oruchwylio swyddogaethau'r Cod Ymarfer.

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Penodi Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer y Gadwyn Cyflenwi Bwyd ........ 3**

2.1. Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Dyfarnwr y Cod Bwydydd ........ 4
2.2. Safbwyntiau rhanddeiliaid ........ 6

**3. Sefyllfa'r Gadwyn Cyflenwi Bwyd ar hyn o bryd ........ 9**

3.1. Y Sector Llaeth ........ 9
3.2. Y Sector Dofednod ........ 12
3.3. Y Sector Cig Moch ........ 13

# Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn cwynion a wnaed gan randdeiliaid ynghylch goruchafiaeth archfarchnadoedd mawr yn y gadwyn cyflenwi bwyd, cyfeiriodd y Swyddfa Masnachu Teg fater cyflenwi bwydydd gan fanwerthwyr i'r Comisiwn Cystadleuaeth i'w archwilio ym mis Mai 2006.

Dadl rhai rhanddeiliaid yw bod yr **anghydbwysedd grym rhwng yr archfarchnadoedd a'r cyflenwyr** yn gorfodi ffermwyr i gynhyrchu rhai cynnyrch amaethyddol ar eu colled, ac roedd eraill yn honni bod goruchafiaeth yr archfarchnadoedd ar rai o'n strydoedd mawr yn gorfodi siopau annibynnol llai i fynd i'r wal.

Dros gyfnod ei ymchwiliad dwy flynedd i'r gadwyn cyflenwi bwydydd, clywodd y Comisiwn Cystadleuaeth dystiolaeth am y ddau fater hyn drwy gyfres o bapurau a chynigiodd argymhellion arnynt. Cynhyrchodd y Comisiwn adroddiad terfynol yn 2008.[1]

Roedd y Comisiwn Cystadleuaeth yn pryderu ynghylch safle'r manwerthwyr bwyd mawr o fewn rhai marchnadoedd lleol. Hefyd, dywedodd y byddai **trosglwyddo risg gormodol a chostau annisgwyl gan fanwerthwyr bwyd drwy arferion amrywiol y gadwyn gyflenwi, os na chânt eu gwirio**, **yn cael effaith andwyol ar fuddsoddi ac arloesi yn y gadwyn cyflenwi bwydydd.**[2] Yn ei grynodeb, nododd y Comisiwn y byddai'r ddau fater yn **cael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr** yn y pen draw.

Mynegwyd pryder dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch y pris a gaiff cynhyrchwyr cynradd am eu cynnyrch gan y manwerthwyr mawr. Mae llawer o bobl yn tynnu sylw at y sector llaeth, y sector dofednod a'r sector cig moch yn hyn o beth, lle y dengys data ar y farchnad bod y manwerthwyr wedi llwyddo i gynyddu eu helw crynswth tra bo ffermwyr yn gweithredu ar eu colled.

Mae adran gyntaf y papur hwn yn canolbwyntio ar argymhellion y Comisiwn Cystadleuaeth mewn cysylltiad â buddsoddi ac arloesi yn y gadwyn gyflenwi a'r cynigion a wnaed gan y Comisiwn Cystadleuaeth ar gyfer penodi ombwdsmon annibynnol. Hefyd, mae'n rhoi cyflwyniad ar ddarpariaethau *Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd 2011,* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Mai 2011 mewn ymateb i argymhellion y Comisiwn Cystadleuaeth.[3]

---

[1] Y Comisiwn Cystadleuaeth , *Groceries Market Investigation,* (Gwefan), [fel ar 26 Mai 2011]
[2] ibid
[3] *Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflewni Bwydydd 2011* (Saesneg yn unig)

Mae ail adran y papur hwn yn cyflwyno data am y farchnad yn y tri sector amaethyddol a ystyrir sydd o dan y pwysau mwyaf oherwydd prisiau isel i gynhyrchwyr a chostau cynhyrchu uchel. Y tri yw'r sector llaeth, y sector dofednod a'r sector cig moch.

## 2. Penodi Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer y Gadwyn Cyflenwi Bwyd

Cyhoeddodd y Comisiwn Cystadleuaeth (a elwir 'y Comisiwn' o hyn ymlaen) ei adroddiad terfynol ar y sector bwyd ym mis Ebrill 2008.[4] Daeth y Comisiwn i'r casgliad yn ei adroddiad, er nad oedd bygythiad i hyfywdra ariannol cynhyrchwyr bwyd a diod oherwydd bod manwerthwyr bwyd yn arfer eu grym, roedd trosglwyddo risg gormodol neu gostau annisgwyl gan gwmnïau archfarchnadoedd mawr i gynhyrchwyr a chyflenwyr yn lleihau'r tebygolrwydd iddynt allu buddsoddi.[5]

Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai'r arfer o wneud addasiadau ôl-weithredol i gontractau a thelerau cyflenwi gan fanwerthwyr bwyd oedd eu prif ffordd o drosglwyddo risg gormodol. Felly, gwnaeth y Comisiwn ddau argymhelliad pwysig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yr argymhelliad cyntaf oedd y dylid cryfhau'r cod ymarfer sy'n bodoli eisoes ar gyfer y sector bwydydd. Nododd y Comisiwn **y dylid mabwysiadu Cod Ymarfer newydd ar y Gadwyn Cyflenwi Bwyd (a elwir 'y Cod Bwydydd' o hyn ymlaen),** a fyddai'n cynnwys darpariaethau gorfodol i fanwerthwyr bwyd sydd **â throsiant bwydydd sydd dros £1 biliwn.** Ymgorfforwyd y cod ymarfer newydd mewn deddfwriaeth yn y *Gorchymyn Archwilio'r Farchnad Bwydydd (Arferion y Gadwyn Gyflenwi) 2009*, a daeth i rym ar 4 Chwefror 2010.[6] Mae'r cod ymarfer newydd:

- Yn gwahardd manwerthwyr bwyd mawr rhag gwneud addasiadau ôl-weithredol i delerau ac amodau cyflenwi;
- Yn ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr bwyd mawr yn ymdrin yn deg ac yn gyfreithlon â'u cyflenwyr;
- Yn gwahardd manwerthwyr bwyd mawr rhag mynd i drefniant â chyflenwyr sy'n arwain at gyflenwyr yn cael eu dal yn gyfrifol am golledion oherwydd traul neu leihad;
- Yn ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr bwyd mawr yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bob cytundeb gyda chyflenwyr;
- Yn cyfyngu ar rym manwerthwyr bwyd mawr i fynnu bod cyflenwyr yn talu iddynt am stocio eu cynnyrch;
- Yn cyfyngu ar rym manwerthwyr bwyd mawr i fynnu bod cyflenwyr yn talu am ymgyrchoedd hyrwyddo ;
- Yn cyfyngu ar rym manwerthwyr bwyd mawr i gael gwared ar gyflenwyr;

---

[4] Y Comisiwn Cystadleuaeth, *Groceries Market,* (Gwefan), [fel ar 26 Mai 2011]
[5] Y Comisiwn Cystadleuaeth, *The Supply of Groceries in the UK market investigation*, Ebrill 2008 [ fel ar 26 Mai 2011]
[6] *Gorchymyn Archwilio'r Farchnad Bwydydd (Arferion y Gadwyn Gyflenwi) 2009* (Saesneg yn unig)

- Yn ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr bwyd yn cymryd rhan mewn proses gymrodeddu orfodol i ddatrys unrhyw anghydfod gyda chyflenwr sy'n codi o dan y cod ymarfer; ac
- Yn ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn penodi swyddogion cydymffurfio mewnol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cod ac yn hyfforddi eu staff ar ei ofynion.[7]

Yr ail argymhelliad gan y Comisiwn oedd y dylid **penodi ombwdsmon annibynnol i fonitro'r Cod Bwydydd a gorfodi pobl i gydymffurfio ag ef.** Nododd adroddiad y Comisiwn, fel dewis cyntaf, y dylai manwerthwyr geisio penodi ombwdsmon o'r fath eu hunain o'u gwirfodd.[8] Ond, **ni lwyddodd y Comisiwn i gael y manwerthwyr bwyd i gytuno i hyn**, felly gofynnodd y Comisiwn **i Lywodraeth y DU ymyrryd** a phenodi ombwdsmon.

## *2.1. Cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Dyfarnwr y Cod Bwydydd*

Ym mis Ionawr 2010, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU ei bod yn **derbyn barn y Comisiwn Cystadleuaeth bod angen corff annibynnol i fonitro'r Cod Bwydydd a gorfodi pobl i ymlynu wrtho**. I'r perwyl hwn, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol y DU ddogfen ymgynghorol a oedd yn cynnig awgrymiadau ar ffurf a chynnwys y swydd newydd.[9] Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ebrill 2010.

Yn dilyn **Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Mai 2010, roedd cytundeb y Llywodraeth Glymblaid newydd yn nodi ymrwymiad i benodi dyfarnwr annibynnol** i oruchwylio'r gadwyn cyflenwi bwyd.

Ym mis Awst 2010, cyhoeddodd Llywodraeth newydd y DU ymateb i'r ymgynghoriad a oedd yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid ac yn nodi eu safbwyntiau a'u cynigion hwy ynghylch ffurf swydd dyfarnwr annibynnol a'i rôl.[10] I ddilyn hyn, ar 24 Mai 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y *Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd* (a elwir 'y Bil Drafft' o hyn ymlaen).[11]

Mae'r Bil Drafft yn nodi cynigion deddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer penodi dyfarnwr i fonitro sut y bydd manwerthwyr mawr yn cydymffurfio â'r Cod Bwydydd. **Bydd darpariaethau'r Bil Drafft yn berthnasol i bob manwerthwr bwyd sydd â throsiant o fwy na £1 biliwn yn** y DU, sef 10 o fanwerthwyr ar hyn o bryd. Y manwerthwyr perthnasol yw:

- Aldi

---

[7] *Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd 2011* (Saesneg yn unig)
[8] Y Comisiwn Cystadleuaeth, *The Supplies of Groceries into the UK market investigation*, Ebrill 2008 [fel ar 27 Mai 2011]
[9] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau , *Consultation on taking forward the establishment of a body to monitor and enforce compliance with the groceries supply code of practice (GSCOP)*, Chwefror 2010
[10] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, *Taking forward the establishment of a body to monitor and enforce compliance with the groceries supply code of practice (GSCOP)*, Awst 2010
[11] *Bil Drafft Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd 2011* (Saesneg yn unig)

- Asda
- Co-operative Group Ltd (sydd wedi ymgorffori Sommerfield)
- Lidl
- Iceland
- Marks and Spencer
- Morrisons
- Sainsbury's
- Tesco, a
- Waitrose.[12]

Dywed y Bil Drafft mai **unig ddiben y dyfarnwr fydd gorfodi gofynion y Cod Bwydydd a'i oruchwylio** ac, i'r diben hwn, cynigir y bydd gan y dyfarnwr y grym i:

- Gynnal proses gymrodeddu ar anghydfodau rhwng manwerthwyr mawr a'u cyflenwyr uniongyrchol neu benodi person arall ar gyfer y gwaith hwn;
- Ymchwilio i unrhyw dorri posibl ar amodau'r Cod Bwydydd gan fanwerthwyr mawr ar ôl derbyn cwyn gan gyflenwr uniongyrchol neu anuniongyrchol;
- Lle mae achos o dorri ar amodau'r Cod, gallai'r dyfarnwr benderfynu gwneud argymhellion i'r manwerthwr ar sut y dylid ymdrin â'r cam neu ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r hyn a ganfuwyd, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi'r wybodaeth mewn papur newydd, yn ei siop neu yn ei adroddiad blynyddol; a
- Cyhoeddi canllawiau ar sut y bydd ymchwiliadau'n digwydd a phryd y cynhelir hwy ac ar y modd y defnyddir y pwerau gorfodi hyn.

Gwnaethpwyd darpariaethau yn y Bil Drafft hefyd i **Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Gorchymyn yn ddiweddarach os bydd yn barnu bod hynny'n angenrheidiol**. Byddai'r Gorchymyn yn galluogi **dyfarnwr i roi cosbau ariannol** i fanwerthwyr sy'n torri amodau'r Cod Bwydydd.

Mae'r Bil Drafft yn cynnig y bydd disgwyl i'r dyfarnwr:

- Roi cyngor a chyfarwyddyd i fanwerthwyr a chyflenwyr ar swyddogaeth y Cod Bwydydd;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn crynhoi ei waith, gan gynnwys manylion pob ymchwiliad a gynhaliwyd; ac
- Argymell gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cod Bwydydd.

---

[12] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, *Impact Assessment: Groceries Code Adjudicator,* Mai 2011

Mae'r Bil Drafft yn gwneud darpariaethau i'r **dyfarnwr gael ei ariannu gan ardoll** ar sail cost lawn a adferir, a **delir gan y manwerthwyr bwyd mawr**. Fodd bynnag, rhoddir y grym i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd i roi grantiau neu i roi benthyciadau i'r corff. Bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu effeithiolrwydd y dyfarnwr bob tair blynedd.

Gan fod **cystadleuaeth yn fater a gadwyd** yn gyfrifoldeb i'r DU, byddai unrhyw ddyfarnwr annibynnol a benodir yn gweithio drwy Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ar y cyd â'r Bil Drafft a oedd yn amlinellu ei pholisi ar y dyfarnwr a'r meddylfryd sy'n sail i'r cynigion yn y Bil Drafft.[13] Dywed Llywodraeth y DU yn y ddogfen mai un o'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'w gynigion yw y dylai'r dyfarnwr **allu ymchwilio i gwynion ac, ar yr un pryd, sicrhau bod y sawl sy'n cwyno yn aros yn ddi-enw**. Dywed Llywodraeth y DU y bydd hyn yn galluogi cyflenwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol i gyflwyno cwynion heb ofni y bydd y manwerthwyr mawr yn dial arnynt. Yn ei ymchwiliad, canfu'r Comisiwn Cystadleuaeth mai dyma un o'r prif resymau pam nad oedd cyflenwyr wedi cwyno o gwbl o dan y cod archfarchnadoedd blaenorol.

Noda'r ddogfen bolisi hefyd, er bod Llywodraeth y DU yn wreiddiol wedi bwriadu i'r dyfarnwr fod wedi'i leoli o fewn y Swyddfa Masnachu Teg, bod yr ymgynghoriad presennol ar uno'r Swyddfa Masnachu Teg a'r Comisiwn Cystadleuaeth yn golygu na fyddai'n briodol rhoi unrhyw swyddogaethau ychwanegol i'r Swyddfa Masnachu Teg ar hyn o bryd. Felly, **penodir y dyfarnwr fel deiliad swydd statudol** gyda darpariaethau sydd yn y Bil Drafft a fydd yn galluogi iddo uno ag unrhyw gorff cyhoeddus ar farchnadoedd a chystadleuaeth a sefydlir yn y dyfodol. Yn y cyfamser, lleolir y dyfarnwr o fewn y Swyddfa Masnachu Teg a chaiff ei adnoddau'n bennaf drwy secondiadau o'r Swyddfa Masnachu Teg.

## *2.2. Safbwyntiau rhanddeiliaid*

Cyflwynwyd 60 ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol ar benodi dyfarnwr. Nid oedd unrhyw **gytundeb unfryd ar yr angen i benodi dyfarnwr** gyda'r cyflenwyr yn cefnogi sefydlu swydd o'r fath yn frwd a'r manwerthwyr yn mynegi siom bod y Llywodraeth wedi penderfynu penodi dyfarnwr cyn rhoi amser i'r Cod Bwydydd newydd ennill ei blwyf.[14] Dywedodd nifer o fanwerthwyr eu bod eisoes wedi gwario

[13] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, *Taking forward the establishment of a body to monitor and enforce the groceries supply code of practice (GSCOP):Groceries Code Adjudicator*, Mai 2011
[14] Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau , *Taking forward the establishment of a body to monitor and enforce the groceries supply code of practice (GSCOP): The Groceries Code Adjudicator,* Awst 2010

symiau mawr o arian ar sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Bwydydd, fel cyflogi swyddogion cydymffurfio a hyfforddi staff perthnasol.[15]

Roedd **anghytuno hefyd ynghylch pwy a ddylai gael gwneud cwyn** i'r dyfarnwr, gyda rhai rhanddeiliaid yn pryderu y gallai cyflenwyr mawr ddefnyddio hyn i gael telerau ffafriol gyda'r manwerthwyr.[16] Hefyd, **ychydig o gytundeb oedd ynghylch a ddylai'r dyfarnwr allu gosod cosbau ariannol,** gyda rhai'n credu y byddai'r difrod i'w henw da o gael eu dal yn torri amodau'r Cod Bwydydd yn ddigon i atal pobl rhag gwneud hynny. [17]

Roedd pryder o du'r manwerthwyr y gallai'r dyfarnwr wyro o'i fandad craidd, sef ystyried cwynion ynghylch torri ar amodau'r Cod Bwydydd, i mewn i feysydd masnachol eraill a allai, mewn gwirionedd, arwain at greu rheolydd yr archfarchnadoedd yn hytrach na dyfarnwr ar y cod yn unig.[18] Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), serch hynny, wedi galw am greu dyfarnwr sydd â phwerau grymus i ymchwilio a fyddai'n gallu ymyrryd heb orfod aros i gŵyn benodol gael ei gwneud.

**Ymateb cymysg hefyd fu ymysg rhanddeiliaid i gyhoeddi'r Bil Drafft**. Mae'r **NFU, NFU Cymru, NFU yr Alban**[19] **ac Undeb Amaethwyr Cymru**[20] wedi **croesawu cyhoeddi'r Bil Drafft,** ond maent wedi dweud y bydd yn bwysig sicrhau bod gan y dyfarnwr ddigon o rym i warchod cyflenwyr; y gall sicrhau'n briodol bod y rhai sy'n cwyno yn aros yn ddienw; ac y gall gynnal ymchwiliadau cynhwysfawr. Hefyd, mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi dweud ei fod yn credu y dylai'r dyfarnwr fod â'r gallu i roi cosbau ariannol am dorri ar amodau'r Cod o'r dechrau'n deg.[21]

Cefnogir y farn hon am allu'r dyfarnwr i roi cosbedigaethau hefyd gan **y Ffederasiwn Bwyd a Diod,** sy'n cynrychioli buddiannau gweithgynhyrchwyr bwyd a diod.[22] Hefyd, dywed **y Ffederasiwn Bwyd a Diod ei fod yn siomedig mai dim ond cyflenwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol a all gwyno** wrth y dyfarnwr ac mae o'r farn y dylai cymdeithasau masnach allu cwyno ar ran eu haelodau hefyd.

Mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod ac undebau'r ffermwyr wedi galw am roi blaenoriaeth i'r Bil Drafft ar amserlen Senedd y DU.

Mae **Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC**), sy'n cynrychioli nifer o'r manwerthwyr mawr, wedi mynegi siom am benderfyniad Llywodraeth y DU i

---

[15] ibid
[16] ibid
[17] ibid
[18] ibid
[19] Driver, Alistair, *Industry leaders fear adjudicator could 'lack teeth'*, *Farmers Guardian*, [Ar-lein] 25 Mai 2011, [fel ar 27 Mai 2011]
[20] Undeb Amaethwyr Cymru, Datganiad i'r Wasg, *FUW Welcomes Groceries Code Adjudicator Bill*, 25 Mai 2011, [fel ar 27 Mai 2011]
[21] ibid
[22] Datganiad i'r Wasg gan y Ffederasiwn Bwyd a Diod, *FDF comments on Draft Groceries Code Adjudicator Bill*, 25 Mai 2011, [fel ar 27 Mai 2011]

gyflwyno'r Bil Drafft .[23] Mae'r Consortiwm wedi dweud y bydd darpariaethau'r Bil Drafft a chost ariannu penodi'r dyfarnwr yn arwain at **brisiau uwch i ddefnyddwyr**. Dywed Consortiwm Manwerthu Prydain nad oes cwynion wedi dod i law ers i'r Cod Bwydydd ddod i rym, felly ni fyddai penodi dyfarnwr **yn arwain at unrhyw fanteision pellach**.

[2323] Consortiwm Manwerthu Prydain, Datganiad i'r Wasg , *Groceries Code Adjudicator will push up prices for shoppers,* 25 Mai 2011 [fel ar 27 Mai 2011]

## 3. Sefyllfa'r Gadwyn Cyflenwi Bwyd ar hyn o bryd

Er bod prisiau bwyd wedi codi i'r lefelau uchaf erioed dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o gynhyrchwyr amaethyddol yn dweud nad yw'r pris y maent yn ei gael am eu cynnyrch wedi codi. Mae hyn, meddent, mewn cyfuniad **â'r ffaith bod costau cynhyrchu fel costau ynni, bwyd a gwrtaith yn codi,** yn golygu bod **rhai ffermwyr wedi bod yn gwneud colledion mawr**. Yn benodol, mae ffermwyr ac undebau'r ffermwyr wedi dadlau, er bod **elw crynswth ffermydd wedi lleihau, mae'r elw a wnaed gan yr archfarchnadoedd ar nwyddau fel llaeth a chyw iâr wedi cynyddu.**


Y sectorau amaethyddol a nodir sydd yn y perygl mwyaf yw'r sector llaeth, y sector moch a'r sector dofednod. Er bod rhyw gymaint o bryder wedi'i nodi ynghylch y ffaith bod costau yn codi ac ynghylch dyfodol proseswyr yn y sector cig eidion a'r sector cig oen yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r prisiau a gafwyd gan gynhyrchwyr yng Nghymru wedi parhau'n weddol sefydlog neu'n uwch mewn rhai amgylchiadau o'i gymharu â'r tri sector amaethyddol arall.

### *3.1. Y Sector Llaeth*

Roedd y sector llaeth mewn argyfwng yn Ewrop yn 2008 pan syrthiodd y pris a dalwyd am bob litr o laeth yn sylweddol drwy'r holl Aelod Wladwriaethau. Yng Nghymru, tra bo pris giât y fferm y litr (ppl) y DU wedi cynyddu o **25.4 ppl yn 2009 i 26.34 ppl yn 2011,** dadl y cynhyrchwyr yw nad yw hyn yn dal yn gynnydd digon arwyddocaol i wneud iawn am brisiau bwydo a phrisiau tanwydd uchel i alluogi ffermwyr i wneud digon o arian i allu ail-fuddsoddi yn eu busnes.[24] Un o brif gwynion cynhyrchwyr llaeth yw bod yr elw crynswth a gaiff ei gadw gan yr archfarchnadoedd wedi cynyddu tra bo cyfran y cynhyrchwr o'r elw heb gynyddu.

[24] Data DairyCo , *UK Wholesale Prices,* (Gwefan), [fel ar 27 Mai 2011]

**Ffigur 1: Graddfa elw marchnad llaeth hylif y DU**




*Ffynhonnell: Data DairyCo*

Ym **1999-2000,** y pris gwerthu am bob litr o laeth ar gyfartaledd oedd **40.6 ceiniog,** a châi'r ffermwr **17.8 ceiniog (44 y cant)**, y prosesydd **14.9 ceiniog (37 y cant)** a'r gwerthwr **7.9 ceiniog (19 y cant) ohono.**[25]

Erbyn **2008-2009,** y pris gwerthu am bob litr o laeth ar gyfartaledd oedd **64.9 ceiniog,** a châi'r ffermwr **25.8 ceiniog (40 y cant)** a'r prosesydd **20.4 ceiniog (31 y cant),** a châi'r gwerthwr gynnydd yn y canran o'r pris roedd yn ei gadw wrth iddo godi i **18.8 ceiniog (29 y cant).**[26]

Yn **2009-2010,** y pris gwerthu am bob litr ar gyfartaledd oedd **65.1 ceiniog** gyda'r ffermwr yn cael **23.8 ceiniog (37 y cant),** y prosesydd yn cael **18.9 ceiniog (29 y cant)** a'r gwerthwr yn cael **22.4 ceiniog (34 y cant).** Felly, rhwng 1999-2000 a 2009-10, **cododd yr elw gwerthu o 19 y cant i 34 y cant.**[27]

Daw DairyCo i'r casgliad yn ei adroddiad ar y gadwyn cyflenwi llaeth bod y diffyg dirywiad yn y pris gwerthu mewn cyfnod o ostyngiad cyffredinol a'r gostyngiad ym mhris y giat fferm yn amlygu'r ffaith y gallai manwerthwyr gynyddu eu helw wrth i broseswyr a chynhyrchwyr llaeth oddef y gostyngiad yn y prisiau.[28]

Mae nifer fawr o ffermwyr llaeth yng Nghymru yn cyflenwi'r farchnad gaws yn hytrach na'r farchnad llaeth hylif. Fel yn achos llaeth hylif, **cynyddodd yr elw crynswth gwerthu** ar gyfer caws ysgafn **11 y cant rhwng 1999-2000 a 2009-2010**. Cynyddodd yr elw gros gwerthu yn y farchnad caws cheddar aeddfed hefyd o **46 y cant yn 1999-2000 i 52 y cant yn 2009-2010.**[29]

[25] DairyCo, *Dairy Supply Chain Margins 2009/2010*, Hydref 2010
[26] ibid
[27] ibid
[28] ibid
[29] ibid

Daw DairyCo i'r casgliad a ganlyn yn ei adroddiad ar y gadwyn cyflenwi llaeth:

> In general, retailers were able to increase their margins on dairy products while the processors appear to have retained their gross margins in percentage terms. Farmers saw a decrease in the average milk price.[30]

Hefyd, mae DairyCo yn pryderu ynghylch y toriadau mewn pris llaeth a'r ymgyrchoedd hyrwyddo gwerthiant a gynigir gan y manwerthwyr ar hyn o bryd. Dywed DairyCo ei bod yn ymddangos bod y toriadau wedi'u hariannu o elw mawr blaenorol y manwerthwyr, ond mae'n annhebygol y byddant yn gwneud hyn am amser amhenodol a byddai hynny'n creu pryder y gallai'r arfer arwain at ostyngiad mewn prisiau i gynhyrchwyr.[31]

### *Cynigion o Ewrop ar gyfer y sector llaeth*

Yn dilyn y cyfnod argyfyngus a brofwyd gan y sector llaeth yn Ewrop yn 2008 a 2009, **sefydlodd y Comisiwn Ewropeaidd Grŵp Llaeth Lefel Uchel** i ystyried yr argyfwng a oedd yn wynebu'r sector ac i gynnig argymhellion ar y ffordd ymlaen.

Gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed gan y grŵp hwn, cyflwynodd y Comisiwn Ewropeaidd **Becyn Llaeth a oedd yn cynnwys cynigion deddfwriaethol** ar newidiadau i sector llaeth Ewrop ym mis Rhagfyr 2010.[32]

Bydd y cynigion deddfwriaethol yn y pecyn yn galluogi Aelod Wladwriaethau **i gyflwyno system o gontractau gorfodol** rhwng cyflenwyr a phroseswyr llaeth, **os mai dyna yw eu dymuniad**. **Ni** fydd yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau wneud hyn ond, os byddant yn penderfynu cyflwyno system o'r fath, er mwyn sicrhau cytgord yn y farchnad fewnol, bydd yn rhaid i'r contractau a fabwysiedir ganddynt gyrraedd safonau penodol a bennwyd ar lefel yr UE.

Bydd y cynigion deddfwriaethol yn **galluogi ffermwyr i ffurfio sefydliadau cynhyrchwyr fel bod modd iddynt fargeinio fel un corff â phrynwyr** i gyd-drafod prisiau a chontractau. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cynnwys cwmnïau cydweithredol. Hefyd, **cyfyngir ar faint sefydliad y cynhyrchwyr. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn awgrymu na ddylent** gael caniatâd i fynd dros **33 y cant o gyfanswm cynhyrchu cenedlaethol** unrhyw Aelod Wladwriaeth.

Hefyd, mae'r cynigion yn cynnwys mater tryloywder y farchnad a'r gadwyn gyflenwi drwy ddarparu **sail gyfreithiol i Aelod Wladwriaethau gasglu gwybodaeth am gyflenwadau llaeth pur** yn fisol.

Mae'r cynigion sydd yn y Pecyn yn cael eu trafod ar hyn o bryd gan bwyllgor amaeth Senedd Ewrop a chan Gyngor y Gweinidogion Amaeth. Gobeithia'r

---

[30] Ibid
[31] ibid
[32] Y Comisiwn Ewrop eaidd, *The 'Milk Package' proposal,* (Gwefan), [fel ar 27 Mai 2011]

Comisiwn y bydd cytundeb ar y cynigion cyn i ddeddfwriaeth newydd **ddod i rym yn 2012,** gyda'r bwriad bod y cynigion yn parhau'n ddilys tan 2020.

### *3.2. Y Sector Dofednod*

Comisiynodd yr NFU adroddiad yn 2009 ar y sector dofednod ym Mhrydain a dyfodol y sector.[33] Roedd data'r NFU yn awgrymu bod y cynhyrchwr cyffredin wedi dioddef cyfnodau hir o golledion rhwng 2004 a Hydref 2008 ac, er bod pethau wedi gwella ers Hydref 2008, bod costau cynhyrchu wedi cynyddu'n sylweddol.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai problem sylfaenol sydd gan y sector dofednod yw'r disgwyliadau mawr am elw gan y manwerthwyr. Noda'r adroddiad bod **manwerthwyr yn cadw oddeutu 51 y cant o'r pris gwerthu tra bo'r cynhyrchwr yn cael dim ond 25 y cant**.[34] Yn ôl undeb yr NFU, mae manwerthwyr, ac yn benodol **y manwerthwyr cadwyn mawr, yn disgwyl gwneud elw o 30 y cant o leiaf** ar werthiant dofednod ar raddfa fawr. Mae hyn, yn ôl yr adroddiad, yn rhoi elw llawer llai i gynhyrchwyr.[35]

Hefyd, canfu'r adroddiad bod y pris a delir ar gyfartaledd (ceiniog y cilogram) yr uned **yn amrywio'n sylweddol rhwng y manwerthwyr mawr** ac y gall newid yn sylweddol o fis i fis.

Daw'r adroddiad i'r casgliad **nad yw'r sefyllfa hon yn rhoi fawr o hyder, neu dim hyder o gwbl, i ffermwyr ail-fuddsoddi.** Er enghraifft, mae ail-fuddsoddi mewn cytiau ieir yn gofyn am hyder gan gynhyrchwyr yn eu perthynas hirdymor â'r manwerthwyr, oherwydd gall y cyfnod ad-dalu ar ôl buddsoddi cyfalaf newydd fod yn gymaint â 10 mlynedd. Gan fod cyfnodau contractau presennol yn fyr iawn, ychydig o gymhelliad sydd i ffermwyr fuddsoddi mewn arferion a thechnolegau mwy effeithlon.

Mae awduron yr adroddiad yn credu y dylai'r **rheini sydd yn y gadwyn cyflenwi dofednod ddysgu gwersi o'r sectorau llaeth a moch,** sydd wedi crebachu oherwydd cyfnodau hir o golledion. Gallai unrhyw ostyngiad pellach yn y pris a gaiff cynhyrchwyr yn y sector dofednod **olygu y bydd nifer sylweddol o ffermwyr yn gadael y sector.**

Cynigia'r adroddiad nifer o argymhellion ynghylch sut y gellid gwella sefyllfa cynhyrchwyr dofednod a'r sector yn gyffredinol. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- cyflwyno gwasanaeth costio annibynnol i gael ei arolygu gan drydydd parti y gellir ymddiried ynddo er mwyn gwella effeithlonrwydd y cynhyrchwr a chynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau deallus;

---

[33] Savills Agribusiness and Savills Research, *A report to the NFU Poultry Board and UK Broiler Growers: A sustainable future for British Chicken*, Mawrth 2009
[34] ibid
[35] ibid

- datblygu trefniadau gweithio agosach rhwng proseswyr, manwerthwyr a chynhyrchwyr i ennyn hyder yn y gadwyn gyflenwi; a
- datblygu cysylltiadau gweithio agosach ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi er mwyn lleihau gwastraff a chael gwared ar aneffeithlonrwydd. Dylid rhannu'r budd a ddaw o hynny yn gyfartal rhwng pawb yn y gadwyn.[36]


## *3.3. Y Sector Cig Moch*

Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd BPEX, sefydliad ardoll y cynhyrchwyr moch, adroddiad ar elw o fewn y gadwyn cyflenwi moch.[37] Roedd yr adroddiad yn nodi bod 'datgysylltiad' pendant yn y gadwyn gyflenwi.

Er bod cynhyrchwyr moch ym Mhrydain wedi gallu symud o wneud colledion mawr yn 2008 i wneud elw bach yn 2009, mae codiadau diweddar mewn prisiau bwyd moch wedi golygu bod llawer o gynhyrchwyr yn gwneud colledion mawr unwaith eto. [38]

Mae cynhyrchu moch yn dibynnu'n fawr ar fwydo dwys a gall 60 y cant o holl gostau cynhyrchwyr fod ar fwyd moch. Os na fydd codiad cyfatebol yn y pris a gaiff cynhyrchwyr am y moch, bydd unrhyw godiad ym mhris bwyd yr anifeiliaid yn cael effaith sylweddol ar elw yn y sector moch.

**Ffigur 2: Elw/ colledion y Diwydiant Moch dros gyfnod o 12 wythnos dreigl (£)**




*Ffynhonnell: BPEX*

[36] Savills Agribusiness and Savills Research: *A report for the NFU Poultry Board and UK Broiler Growers: A sustainable future for British Chicken*, Mawrth 2009
[37] BPEX, *Profitability in the Pig Supply Chain*, Mawrth 2011 [fel ar 27 Mai 2011]
[38] ibid

Dywed BPEX yn ei adroddiad fod **cynhyrchwyr moch Prydain wedi colli tua £35 miliwn yn y cyfnod o 12 wythnos hyd at ddiwedd mis Ionawr 2011 ac, yn yr un cyfnod o 12 wythnos, amcangyfrifir bod elw'r sector brosesu yn £100 miliwn a bod elw cyfunol y manwerthwyr oddeutu £192 miliwn**.

Hefyd, mae BPEX yn amcangyfrif **bod manwerthwyr wedi cynnal lefel elw o dros £100 am bob mochyn** ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf, a bod y proseswyr yn gwneud elw o £40, tra bo'r **cynhyrchwyr moch yn dioddef colled o £20 ar gyfartaledd ar y lefel bresennol.**

Tra bo prisiau bwyd moch yn cael effaith sylweddol ar y ffigurau hyn, yn aml iawn, nid ystyrir cost gynyddol bwyd yn y prisiau a delir i gynhyrchwyr. Dengys ffigurau BPEX mai'r Pris Cyfartalog am Bwysau Marw ym mis Chwefror 2011, hynny yw **y pris a dalwyd i gynhyrchwyr, oedd 135 ceiniog y cilogram**. Roedd hyn **3 y cant yn is na'r pris ym mis Chwefror 2010, sef 142 ceiniog y cilogram**.[39] Er mwyn i gynhyrchwyr allu gwneud elw ar y gost gynhyrchu bresennol, mae BPEX yn cyfrifo y byddai'n rhaid i'r Pris Cyfartalog am Bwysau Marw **gynyddu 27 ceiniog y cilogram i gyrraedd 164 ceiniog y cilogram.**[40] Byddai hyn yn rhoi **£21 ychwanegol am bob mochyn** i gynhyrchwyr ar gyfartaledd.[41]

Daw BPEX i'r casgliad bod sefyllfa'r farchnad y mae cynhyrchwyr yn ei wynebu ar hyn o bryd wedi arwain at lai o hyder ymysg cynhyrchwyr a lleihad yn y tebygolrwydd y byddant yn ail-fuddsoddi yn eu busnes. Mewn arolwg ymhlith cynhyrchwyr, canfu BPEX bod **53 y cant o gynhyrchwyr yn llai hyderus** nag oeddent yn 2010, bod **53 y cant yn credu y byddant yn buddsoddi llai o gyfalaf**, bod **48 y cant yn credu y byddant yn buddsoddi llai mewn offer a pheiriannau** a bod **90 y cant yn dweud bod eu pris gwerthu cyfartalog wedi lleihau neu wedi aros yn ei unfan dros y tri mis diwethaf** o'i gymharu â'r un amser y llynedd.[42]

## *Trafodaethau yn Ewrop ar yr argyfwng sy'n wynebu'r sector*

Dros y misoedd diwethaf, bu galw o du rhai Aelod Wladwriaethau ar lefel Ewrop am sefydlu Grŵp Lefel Uchel ar gig moch, yn debyg i'r un a sefydlwyd yn flaenorol ar y sector llaeth. Hyd yma, mae'r Comisiwn Ewropeaidd ymwrthod â'r galwadau hyn gan ei fod wedi dweud y gallai sefydlu grŵp o'r fath godi disgwyliadau'r sector ynghylch pa gamau y gellid eu cymryd mewn gwirionedd.[43] Ond mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu 'pwyllgor ymgynghorol' ar gig moch a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd, ac y gofynnir iddo ystyried:

---

[39] ibid
[40] ibid
[41] ibid
[42] ibid
[43] AGRAFACTS , *Pig Meat Crisis Set to Dominate Agenda Over Coming Months,* Rhif 04-11, 19 Ionawr 2011

- Offerynnau cronfa gydfuddiannol a rheoli risg yng nghyd-destun diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ôl 2013;
- Hyrwyddo cig moch a chynhyrchion cig moch yr UE: a
- Opsiynau'r UE at y dyfodol ar gyfer rheoli'r farchnad mewn cyfnodau o argyfwng.[44]

Hefyd, rhoddwyd cymorth gyda storio preifat ym mis Ionawr 2011 i helpu i leddfu'r argyfwng. Fel rhan o'r cynllun, rhoddwyd arian yr UE i gynhyrchwyr a phroseswyr i helpu i dalu costau storio eu cig am fisoedd lawer nes bod prisiau porc yn gwella.[45]

[44] AGRAFACTS, *Private Storage Aid (PSA) Announced by Ciolos to Tackle Crisis in Pigmeat Sector*, Rhif 6-11, 24 Ionawr 2011
[45] ibid